dti

ISAFSWM CYFLOG CENEDLAETHOL

Canllaw byr i weithwyr

DIWYGIWYD HYDREF 2005

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr isafswm cyflog neu os ydych yn meddwl eich bod yn cael rhy ychydig o gyflog, ffoniwch y llinell gymorth ar gyfer isafswm cyflog ar:

0845 6000 678

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, fe all ffrind neu aelod o'r teulu ffonio ar eich rhan. Neu gallwn drefnu i chi siarad trwy gyfieithydd.

dti

Mae'r DTI yn gyrru ein huchelgais i sicrhau 'ffyniant i bawb' trwy weithio i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer llwyddiant busnes yn y DU. Byddwn yn helpu pobl a chwmnïau i ddod yn fwy cynhyrchiol trwy hyrwyddo menter, blaengarwch a chreadigrwydd.

Pleidiwn achos busnesau'r DU gartref a thramor. Byddwn yn buddsoddi'n drwm mewn gwyddoniaeth a thechnoleg o'r radd flaenaf. Diogelwn hawliau gweithwyr a defnyddwyr. A chefnogwn farchnadoedd teg, agored yn y DU, Ewrop a'r byd.

Beth yw'r isafswm cyflog cenedlaethol?

Mae'r isafswm cyflog yn hawl cyfreithiol sy'n cwmpasu bron yr holl weithwyr yn y Deyrnas Unedig. Fe ddaeth yn rhan o gyfraith y DU ar 1 Ebrill 1999.

Ar **1 Hydref 2005** fe gododd prif gyfradd yr isafswm cyflog i £5.05 yr awr, o £4.85 yr awr. Mae'r brif gyfradd yn gymwys o ben-blwydd gweithwyr yn 22 oed.

Ar **1 Hydref 2005** fe gododd cyfradd pobl ifanc yr isafswm cyflog, ar gyfer gweithwyr rhwng 18 a 21 oed (yn gynhwysol), i £4.25 yr awr, o £4.10 yr awr.

Ar **1 Hydref 2004** fe gyflwynwyd cyfradd newydd ar gyfer gweithwyr dan 18 oed sydd wedi peidio â bod o oedran ysgol gorfodol. £3.00 yr awr yw'r gyfradd hon.

Os ydych yn dechrau ar swydd gyda chyflogwr newydd ac yn 22 oed neu drosodd ac yn derbyn hyfforddiant wedi'i achredu, bydd yn rhaid i chi gael eich talu, o 1 Hydref 2005, o leiaf £4.25 yr awr (£4.10 o'r blaen) am chwe mis cyntaf eich cyflogaeth. Yn yr achos hwn, bydd yn rhaid i chi ddod i gytundeb gyda'ch cyflogwr yn ei ymrwymo ef neu hi i ddarparu hyfforddiant ar o leiaf 26 diwrnod yn ystod y cyfnod hwnnw o chwe mis. Ffoniwch y llinell gymorth ar gyfer isafswm cyflog ar **0845 6000 678** i gael rhagor o fanylion am y mathau o hyfforddiant sydd wedi'u hachredu.

A yw hyn yn effeithio arnaf i?

Mae gan y rhan fwyaf o weithwyr yn y DU hawl i gael yr isafswm cyflog, gan gynnwys gweithwyr cartref, gweithwyr asiantaeth, gweithwyr comisiwn, gweithwyr rhan amser, gweithwyr ysbeidiol a gweithwyr ar dasg.

Beth sy'n cyfrif fel cyflog?

Efallai y byddwch am wneud yn siwr bod eich cyflog yn unol â'r isafswm cyflog, gan nad yw'r holl arian a gewch bob wythnos neu bob mis yn cyfrif. Mae ysgogiadau, taliadau bonws a thâl yn gysylltiedig â pherfformiad **yn** cyfrif fel cyflog o safbwynt yr isafswm cyflog, ond **nid** yw lwfansau fel lwfansau rhanbarthol sy ddim yn cael eu cyfuno â'ch cyflog sylfaenol yn cyfrif. Nid yw unrhyw arian ychwanegol dros y cyfraddau sylfaenol a gewch am weithio goramser neu am weithio sifftiau yn cyfrif chwaith.

Nid yw buddion mewn nwyddau fel iwnifform, prydau neu yswiriant iechyd preifat yn cyfrif. Yr unig fudd mewn nwyddau sy'n cyfrif yw llety. Mae yna reolau arbennig ar gyfer cyfrifo gwerth eich llety sy'n cyfrif tuag at yr isafswm cyflog.

I gael rhestr lawn o'r hyn sy'n cyfrif a'r hyn sy ddim yn cyfrif fel cyflog, ffoniwch y llinell gymorth ar gyfer isafswm cyflog ar **0845 6000 678.**

Beth sy'n cyfrif fel oriau?

Mae'r oriau y mae'n rhaid i chi dderbyn o leiaf yr isafswm cyflog ar eu cyfer yn amrywio yn ôl y math o waith y byddwch yn ei wneud. Mae pedwar math gwahanol o waith.

- Os ydych yn cael eich talu am weithio nifer benodol o oriau neu gyfnod penodol o amser, rydych yn gwneud **gwaith yn ôl amser;**
- Os oes gennych gontract i weithio nifer benodol o oriau sylfaenol bob blwyddyn yn gyfnewid am gyflog blynyddol sy'n cael ei dalu mewn rhandaliadau cyfartal (er enghraifft bob wythnos neu bob mis), rydych yn gwneud **gwaith oriau am gyflog;**
- Os ydych yn cael eich talu yn ôl nifer y darnau rydych yn eu cynhyrchu neu yn ôl y tasgau rydych yn eu cyflawni, rydych yn gwneud **gwaith yn ôl cynnyrch.** Os ydych yn weithiwr yn ôl cynnyrch rhaid i chi gael eich talu un ai yn ôl y system "cyfradd deg am waith ar dasg" neu'r isafswm cyflog am bob awr y byddwch yn ei gweithio;
- Os oes raid i chi wneud nifer o dasgau penodol, ond nad oes gennych unrhyw oriau penodol, rydych yn gwneud **gwaith heb ei fesur.** Mae yna ddewis i chi gael cytundeb ysgrifenedig gyda'ch cyflogwr sy'n nodi nifer yr oriau y dylech eu gweithio bob dydd ar gyfartaledd.

Sut mae gwneud yn siwr fy mod yn cael yr isafswm cyflog cenedlaethol?

Cyn belled â bod gennych hawl i gael yr isafswm cyflog, ni all eich cyflogwr eich gorfodi i dderbyn graddfa cyflog is. Hyd yn oed os byddwch yn arwyddo contract yn cytuno i dderbyn graddfa cyflog is, ni fydd unrhyw effaith gyfreithiol i hynny.

Os ydych yn meddwl eich bod yn cael llai o gyflog na'r isafswm cyflog, mae gennych hawl i weld eich cofnodion am hyn. Cyn belled â'ch bod yn gwneud eich cais trwy lythyr, mae'r gyfraith yn mynnu bod yn rhaid i'ch cyflogwr ddarparu'r cofnodion o fewn 14 diwrnod. Gellir ymestyn y dedlein hwn os byddwch yn cytuno.

Os oes gennych unrhyw broblemau neu gwestiynau am yr isafswm cyflog, neu os ydych yn meddwl eich bod yn cael rhy ychydig o gyflog, fe ddylech chi ffonio'r llinell gymorth ar gyfer isafswm cyflog ar **0845 6000 678.** Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, fe all ffrind neu aelod o'r teulu ffonio ar eich rhan. Neu gallwn ni drefnu i chi siarad trwy gyfieithydd. Mae galwadau yn cael eu trin yn gyfrinachol a gallwch siarad yn ddienw os ydych yn dymuno. Ond os ydych eisiau i swyddogion isafswm cyflog geisio cael taliadau dyledus yn ôl i chi, fe fydd hi'n haws

iddyn nhw weithredu'n briodol os byddant yn gwybod eich enw a'ch manylion. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i swyddogion roi eich enw i'ch cyflogwr yn nes ymlaen yn y broses orfodi (er enghraifft os bydd angen iddynt fynd i dribiwnlys cyflogaeth ar eich rhan i orfodi'r cyflogwr i dalu). Ni fyddant yn gwneud hyn heb ofyn i chi yn gyntaf.

Dewis arall yw mynd â'ch achos gerbron tribiwnlys cyflogaeth neu lys sifil, ond efallai y byddai'n syniad cael cyngor gan eich Canolfan Gynghori leol neu undeb llafur cyn gwneud hynny.

Mae'r gyfraith yn eich gwarchod rhag cael eich diswyddo neu eich fictimeiddio gan eich cyflogwr dros eich hawl i gael yr isafswm cyflog a thros unrhyw weithredu y gallech ei gymryd i orfodi eich hawliau.

Sut mae cael gwybod mwy?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr isafswm cyflog neu os ydych yn meddwl eich bod yn cael rhy ychydig o gyflog, ffoniwch y llinell gymorth ar gyfer isafswm cyflog ar **0845 6000 678.** Mae'r llinell yn cael ei rhedeg gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar ran y DTI.

Codir cyfradd leol am alwadau ffôn. I'n helpu i wella ansawdd ein gwasanaeth, gallwn fonitro neu recordio eich galwad.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at ymholiadau isafswm cyflog, Rhadbost PHQ1, Newcastle upon Tyne NE98 1ZH neu fynd i wefan isafswm cyflog y DTI yn: **http://www.dti.gov.uk/er/nmw (gwybodaeth yn Saesneg yn unig)**

Mae'r daflen hon ar gael hefyd yn Saesneg, Arabeg, Bengaleg, Gwjarati, Pwnjabeg, Tamileg, Wrdw, Tsieinëeg.

Bwriad y wybodaeth yn y daflen hon yw darparu cyfarwyddyd cyffredinol yn unig. Ni ddylech ei hystyried yn ddatganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.

Printed in the UK on recycled paper with a minimum HMSO score of 75.

First published Sept. 2000.

Department of Trade and Industry. www.dti.gov.uk/

© Crown copyright. DTI/Pub 7979/ .5k/09/05/AR. URN 05/1487W